

Gwybodaeth i Ymgeiswyr ac Asiantiaid

Etholaeth Blaenau Gwent

Yn y bleidlais etholaethol, rydych yn dewis yr **ymgeisydd** yr ydych am iddo/iddi eich cynrychioli'n uniongyrchol.

Mae'r Etholaeth hon yn dilyn ffiniau Sir Blaenau Gwent.

Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth yw Michelle Morris, Cyngor Sir Blaenau Gwent ac mae'n gyfrifol am:

- Gyhoeddi'r hysbysiad o etholiad
- Gweinyddu'r broses enwebu
- Hybu cyfranogiad
- Cyhoeddi datganiad y sawl a enwebwyd a'r hysbysiad o bleidlais
- Darparu gorsafoedd pleidleisio a sicrhau bod y cyfarpar priodol ynddynt
- Penodi staff yr orsaf pleidleisio
- Cynnal y bleidlais
- Rheoli'r broses o bleidleisio drwy'r post
- Dilysu a chyfrif y pleidleisiau ar gyfer yr onest etholaethol a'r rhan o'r ornest ranbarthol sydd o fewn yr etholaeth
- Datgan canlyniadau'r etholaeth
- Trosglwyddo canlyniadau'r ddwy ornest i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

Dwyrain De Cymru

Mae Rhanbarthol Dwyrain De Cymru yn cynnwys yr Etholaethau canlynol:

Blaenau Gwent

Caerffili

Casnewydd Dwyrain

Casnewydd Gorllewin

Islwyn

Merthyr Tudful a Rhymni

Sir Fynwy

Torfaen

Michelle Morris yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Dwyrain De Cymru ar gyfer Etholiad 2021 ac felly hi sy'n gyfrifol am weinyddu'r Etholiad Rhanbarthol yn effeithiol, gan gynnwys:

- Cysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn Rhanbarth Dwyrain De Cymru
- Cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad
- Gweinyddu'r broses enwebu

- Cyhoeddi datganiad y sawl a enwebwyd a'r pleidiau a enwebwyd a'r hysbysiad o bleidlais
- Hybu cyfranogiad
- Coladu a chyfrifo nifer y pleidleisiau ar gyfer pob ymgeisydd unigol ar gyfer pob plaid wleidyddol yn yr etholiad rhanbarthol a chyfrifo dosraniad y seddau ar gyfer y rhanbarth etholaethol
- Datgan y canlyniad rhanbarthol.

Ar gyfer yr Etholiad Rhanbarthol, mae pob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gyfrifol o fewn eu hardal bleidleisio am y canlynol:

- Hybu cyfranogiad
- Darparu gorsafoedd pleidleisio
- Argraffu papurau pleidleisio
- Cynnal y bleidlais
- Penodi staff ar gyfer y gorsafoedd pleidleisio
- Rheoli'r broses o bleidleisio drwy'r post
- Y gweithdrefnau dilysu a chyfrif yn eu hardal bleidleisio
- Trosglwyddo'r cyfansymiau lleol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol